

LLEISIAU O LAWR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

Cookes Explosives, Penrhyndeudraeth (1940 - 1970)

Cyfwelai: VN026 Blodwen Owen

Dyddiad: 16: 06: 2014

Cyfwelydd: Kate Sullivan ar ran Archif Menywod Cymru

There is an English summary of the interview following the Welsh text

Cadarnhaodd Blodwen ei henw, ei chyfeiriad a'i dyddiad geni, sef 20/08/1925

Mae'n dod yn wreiddiol o Lanfrothen, roedd ei mam yn wraig tŷ a'i thad yn chwarelwr yn y chwarel yng Nghroesor, a symudodd o i'r de am ychydig ar ôl i'r chwarel gau i weithio yn y pyllau glo. Aeth y teulu ddim efo fo. Roedd saith o blant i gyd yn y teulu, ac roedd Blodwen yr ifancaf ond un. Aeth hi i ysgol yn Llanfrothen ac wedyn i Ysgol Sir Porthmadog, yn gadael tua 15 neu 16 oed, achos doedd dim arian gan y teulu i dalu'r bws o Lanfrothen i Borthmadog nac am lyfrau. Roedd y teulu yn byw ar gyflog ei thad. Roedd Blodwen gartref yn helpu ei mam wedyn ac yn gweithio tipyn mewn hotel yn Llanfrothen. Roedd hi'n dysgu llawer gan ei mam. Câi hi 'chweugian' yr wythnos yn yr hotel. Roedd ei mam yn golchi pethau hefyd yn yr hotel, ond nid oedd yn cael cyflog am hyn (?). Aeth ei brodyr i ffwrdd i weithio ac wedyn i'r rhyfel. Roedd Blodwen yn yr hotel tan iddi gael gwaith yn Cookes, trwy ffrind oedd yn gweithio yno. Chafodd hi ddim cyfweliad, dim ond mynd i'r swyddfa i ofyn am swydd.

Roedd hi'n mynd ar gefn beic o Lanfrothen i Benrhyndeudraeth. Roedd hi'n 15 oed yn dechrau yn Cookes dywedodd hi. Doedd hi ddim yn nerfus yn dechrau achos roedd ganddi ffrindiau yno yn barod. **Ei swydd hi oedd gwneud bagiau papur i mewn i ryw fath o cartridge ar gyfer y powdwr a'r gelignit, dim efo pethau perygl. Pan oedd y merched yn cyrraedd 18 oed, roedden nhw'n gorfod symud i'r cytiau i weithio efo'r deunydd peryglus; cyn 18, roedden nhw'n gwneud pethau fel bagiau. Roedd y gwaith yn undonog iawn, meddai, ac roedd hi'n gweithio 'piece work', a oedd yn golygu os nad oedd hi'n gwneud digon, doedd hi ddim yn cael cymaint o gyflog. "Roeddech chi'n gorfod gweithio'n galed i wneud eich cyflog."**

7.15 Roedd hi'n gweithio 8yb tan 5yh, gyda hanner awr i ginio. Roedd y cyflog yn codi rhywfaint ar ôl mynd i'r cytiau, meddai, ond dim llawer. Tair punt oedd ei chyflog cyntaf ac ar ôl cael codiad, chafodd hi ddim mwy na saith bunt. **Doedd y ffatri ddim yn lle cyfforddus i weithio yn enwedig yn ystod y rhyfel, pan oedden nhw'n gwneud hand grenades ac roedd dwylo'r merched yn mynd yn felyn ac roedd 'na arogl drwg yno o'r TNT, a oedd yn beryglus ofnadwy. Wrth**

ddisgrifio'r gwaith, dywedodd Blodwen fod ganddi *stand* ac oedd hi'n rhoi'r *grenade* arno a gwthio'r powdwr i mewn. Roedd rhai eraill yn peintio'r tu allan, naill ai yn wyrdd neu'n goch, ac roedd yn rhaid iddyn nhw beidio'u cyffwrdd nhw os oedd y paent yn wlyb. Ar ôl i'r paent sychu, roedden nhw'n rhoi'r *grenades* i mewn i'r *holder* yma er mwyn llenwi nhw efo TNT, ac roedd ganddi ryw offer - pric - i dopio fo i mewn. Ac wedyn swydd rhai o'r merched oedd goruchwyllo i weld os oedd y *grenades* wedi'u llenwi'n iawn, bod digon o bowdwr ynddynt. Os na, caent eu gwrthod ac roedd rhaid eu hail-lenwi nhw. Roedd Blodwen yn trio'u llenwi nhw yn iawn.

Ar ddiwedd pob shift, roedd rhaid i'r gweithwyr roi dŵr i lawr i sicrhau nad oedd 'friction' pan oedd rhywun yn brwsio'r llawr; doedden nhw ddim yn gallu jyst brwsio'r powdwr i ffwrdd rhag bod 'na friction a gallai hynny achosi ffrwydrad. Doedd y merched ddim yn gallu gwisgo clipiau yn eu gwalltiau am yr un rheswm.

Roedd hi'n gwisgo iwniform ac roedd ei chroen wedi'i achub ond doedd hi ddim yn gwisgo masg. Doedd pobl ddim yn ymwybodol o pa mor beryglus oedd y gwaith tan i ICI gymryd drosodd. R.T Cooke oedd piau'r lle ond ar ôl y ffrwydrad mawr, cymerodd ICI drosodd a newidiodd pethau. **Collodd Blodwen chwaer yn y ffrwydrad mawr yn 1957, sef Elizabeth (VN026)** Roedd Blodwen newydd orffen gwaith yng nghwt P3, lle roedden nhw'n gwneud y *sheathing* ac roedd ei chwaer ar y powdwr yng nghwt P1. Roedd Blodwen newydd ddweud hwyl wrth ei chwaer a hithau wrthi yn llenwi ?? ar y peiriant "A dyma fi yn dweud 'Dw i'n mynd, mae'r hwter yn canu'" a cherddodd hi lawr i'w lle hi, a daeth 'coblyn o glec' a chafodd hi ei thaflu dros y *bench* a'i hitio allan, a chawson nhw hyd iddi yn fannu. Roedd hi mewn sioc felly doedd hi ddim yn gwybod faint na phwy oedd wedi cael eu lladd am ddau ddiwrnod. Roedd ei chwaer yn byw gartre ac roedd Blodwen wedi priodi erbyn hyn ac yn byw ym Mhorthmadog. Roedd ei chwaer yn 45 oed ar y pryd a Blodwen yn 32 oed. Cafodd pedwar eu lladd y diwrnod hwnnw, tair merch ac un dyn. Roedd 'na gwest i mewn i'r ffrwydrad, gyda'r dyfarniad: '*No negligence on the part of the company*', ond doedd neb yn gwybod. Ond mae Blodwen yn cofio, un diwrnod ychydig cyn y damwain, bod un o'r fformen wedi galw ar griw o ferched, gan gynnwys Blodwen, i beidio â mynd un ffordd, ond i gymryd ffordd arall. Pan ofynnodd Blodwen pam, dywedodd y dyn yma ei fod o wedi gweld *flashes glas* o drydan glas y ffordd hynna. Roedd llygod i fyny'r grisiau, meddai Blodwen, a phobl yn meddwl eu bod wedi cnoi trwy'r gwifrau trydan. Roedd pobl yn ddig ond chafodd neb geiniog o iawndal i'r teuluoedd achos doedd gan ei chwaer ddim *dependents*, dim ond talu am y claddu gwnaeth y cwmni, er bod dim byd ar ôl i gladdu, meddai Blodwen.

15.00 Roedd Blodwen i ffwrdd o'r gwaith am hanner blwyddyn; yn y diwedd, meddai rheolwr y gwaith wrthi y byddai'n well iddi fynd yn ôl neu ni fyddai'n anghofio am y peth fyth. Roedd o'n anodd iddi fynd yn ôl, meddai, yn ofnadwy, ond wnaethon nhw ei symud hi o'r lle roedd y damwain wedi digwydd i ochr arall y safle. Ail-adeiladon nhw'r cwt hwnnw yn y diwedd. Gwaith newydd Blodwen oedd yn y *packing house*, lle roedden nhw'n pacio'r *cartridges* i fynd i ffwrdd. Roedd y *grenades* wedi stopio erbyn hynny, ar ôl i'r rhyfel orffen. Ar ôl i ICI gymryd drosodd (yn ystod y rhyfel), wnaethon nhw adeiladu 'mounds' uchel o gwmpas pob cwt er mwyn lleihau'r effaith tasa ffrwydrad arall yn digwydd. Cyn hyn, roedd y safle yn hollol agored. Roedd 'na fwy o reolau iechyd a diogelwch wedyn, meddai. Ar ôl y rhyfel, gwneud ffrwydron ar gyfer pyllau glo yr oedd y ffatri.

Yn y pacio, roedd rhan fwyaf o'r gweithwyr yn ferched, heblaw'r dyn a oedd yn derbyn y stff i mewn ac yn gyrru'r ffrwydron i ffwrdd. Gweithio mewn grŵp o bum merch ac un dyn yr oedd Blodwen yn yr ystafell bacio, o 1957 ymlaen. **Cyn hynny, roedd hi wedi bod yn gweithio yn y *sheathing*, lle roedden nhw'n derbyn y *cartridges* ac yn eu rhoi nhw mewn bagiau efo soda (?)**

o'u cwmpas. Roedd y merched yn gorfod rhoi rhywbeth am ei gwalltiau yn y swydd hon ac oedd na beiriant yn rhoi rhywbeth o gwmpas y bag yma i'w gloi. Doedd Blodwen ddim yn hir yn y swydd hon achos doedd hi ddim yn ei hoffi fo o gwbl ac o fanno, aeth hi i'r pacio. Roedd twrw ofnadwy gyda'r peiriant cloi yma, ac roedd hi'n ofnadwy pan oedd hi'n boeth, yn enwedig os oedd hi'n mynd i mewn ar gyfer y shifft prynhawn. Roedd y shifftiau yn mynd o chwech tan ddau a dau tan ddeg, ac wyth tan bump, ac amser rhyfel, roedd hi ar y shifft nos hefyd. Doedd y gweithwyr ddim yn gallu dewis shifft a doedd hi ddim yn hoffi'r shifft nos o gwbl, Roedd hi'n teithio ar gefn beic hefyd, ddydd a nos. Mae'n dweud bod hyn yn 'way of life adeg hynny.' Roedd rhai merched o Lanfrothen yn gweithio yno hefyd ond dim o angenrheidiol ar yr un shifft.

21.00 Priododd Blodwen yn 1947 a chafodd hi ddau fab, a pharhau i weithio, yn codi am bump os oedd hi ar y shifft fore, gwneud brecwast iddynt a'r gŵr, ac roedd y gŵr yn mynd â'r plant i'r ysgol. Roedd ei gŵr yn gweithio efo'r bwrdd nwy ac yn gweithio shifftiau gwahanol i Blodwen, felly roedden nhw'n rhannu'r gwaith gofalu am y plant rhyngddynt. Cafodd Blodwen gap o Cookes pan oedd hi'n feichiog a dychwelyd wedyn. Roedd hi yno 25 1/2 o flynyddoedd o'r dechrau i'r diwedd, o tua 1940 tan 1970, gyda'r bwlch yma. **Roedd rhaid i'r merched oedd yn gweithio efo'r ffrwydron fynd at y meddyg bob wythnos am 'check up' ac aeth Blodwen un tro, a dywedodd y meddyg wrthi fod gwasgedd ei gwaed yn isel iawn, ac roedd o'n mynd i'w thynnu hi oddi ar y ffrwydron i wneud gwaith ysgafn am chwe wythnos. Ond ar ôl mis, daeth rhyw foreman ati a dywedodd bod rhaid iddi fynd yn ôl i'r cytiau, ac aeth hi. Ar ôl tipyn, galwodd y meddyg hi'n ôl i'r feddygfa ac roedd ei gwasgedd yn isel eto. 'Wyt ti wedi mynd yn ôl?' gofynnodd, a phan atebodd Blodwen fod y fforman wedi ei hanfon hi yn ôl i'r cwt, aeth o'n syth ar y ffôn iddo a dywedodd wrth y dyn bod hi'n dioddef o '*NG poisoning*' a doedd hi ddim yn mynd yn ôl i'r gwaith, bod rhaid iddi orffen gwaith yr un diwrnod. Dywedodd Blodwen nad oedd hi'n gallu gorffen ond mynnodd y meddyg bod yn rhaid iddi orffen neu doedd o ddim yn mynd i yn gyfrifol amdani. Roedd y *NG poisoning* yn effeithio ar y galon, a gan ei bod hi wedi bod yno 26 o flynyddoedd, roedd hi mewn perygl o ddioddef y salwch hwn. Ymddeolodd Blodwen bryd hwnnw ond chafodd hi ddim iawndal o gwbl am y salwch roedd hi'n ei ddioddef. Roedd undeb yno ac roedd Blodwen yn aelod, fel y rhan fwyaf, ond dim pawb, ond doedd yr undeb ddim yn ddigon cryf i helpu yn y mater hwn. Ar ôl colli ei gwaith, roedd Blodwen yn crïo bob cam o'r ffatri i'w chartref ar y bws. Cafodd hi waith mewn siop esgidiau ym Mhorthmadog ac roedd hi yno tan i'r siop gau.. Yn y siop hon, roedd menyw arall a oedd wedi bod yn gweithio yn Cookes ac roedd hithau yn dioddef efo'i thyroid ac yn gorfod gorffen.**

Roedd Blodwen yn colli cwmni'r merched eraill ar ôl gorffen ac yn deud bod nhw'n grêt, ffrindiau da- pawb. Roedd tri llond bws yn mynd â'r gweithwyr yno ac roedd bron chwe chant yn gweithio yno. **Roedd 'na rai oedd yn gallu bod yn gas ond ar y cyfan roedd pawb yn iawn. Doedd hi ddim yn cymdeithasu efo nhw y tu allan i'r gwaith achos roedd digon ganddi hi i'w wneud gartref yn gofalu am y gŵr, y plant a'r tŷ.** Cafodd hi ei mab cyntaf yn 1948, pan oedd hi'n 23; cafodd hi'r ail fab dwy flynedd wedyn. Dywedodd hi ei bod hi wedi mynd yn ôl i'r ffatri ar ôl i'r ail fab gyrraedd rhyw dair oed, - yn y pumdegau oedd hyn, cyn y ffrwydrad yn 1957.

29.10 Roedd cantîn 'lyfli a cook ardderchog' yn Cookes a phob Nadolig roedd y gweithwyr yn cael cinio am ddim. Roedd staff y cantîn yn dod i mewn ar y Dydd Sul cyn y Nadolig i baratoi. Roedd y gweithwyr yn talu am eu cinio trwy'r flwyddyn ond dydy hi ddim yn cofio faint, ond dim llawer meddai. Roedd y bwyd yn dda iawn. **Doedd y cantîn ddim ar agor ar y shifft nos, roedd pobl yn cael mynd yno i fwyta bwyd roedden nhw wedi do dag e i mewn efo nhw, ac roedd 'na degell i wneud te neu goffi, ond doedd y gegin ddim ar agor gyda'r nos.**

Roedd rhaid i'r gweithwyr glocio mewn a mas yn y dechrau ond cafodd y cwmni wared â hyn yn nes ymlaen. Roedd pobl yn brydlon achos roedd y swyddfa drws nesaf i'r giât lle oedd pobl yn mynd i mewn, felly roedd yn rhaid iddynt fod yn brydlon.

31.30. **Roedd Blodwen ar y 'works committee'** ac yn mynd bob blwyddyn ar dripiâu i Ogledd Lloegr i gyfarfodydd y cwmni, gyda ffatri arall Cookes wedi'i lleoli yn Yr Alban. (Yma roedd Blodwen yn dangos lluniau, gan gynnwys rhai o'r pwyllgor gwaith ac un o'i chwaer a gweithwyr eraill a gafodd ei lladd yn Awst 1957 a phan oedd hi'n ymddeol). Cyfarfodydd 'Liaison' oedd y rhain efo ffatrioedd ICI yn yr Alban. **Cafodd Blodwen ei hethol i'r pwyllgor gwaith, trwy bleidlais.** Roedd y cwmni yn cyflogi ei feddyg ei hun, meddai hi. **Roedd un o'r rheolwr wedi dod â *scheme* i mewn lle roedd gweithwyr yn gallu ennill bonus am beidio colli gwaith; enillodd Blodwen hwn a chafodd hi *award* o tua £70 am *full attendance*.** Roedd y gweithwyr yn cael tâl salwch.

Doedd y cwmni ddim y trefnu tripiâu i'r gweithwyr ond yn yr haf roedd Blodwen yn cael wythnos o wyliau ym mis Awst, gyda gwyliau cyffredin amser y Nadolig a'r Pasg.

Yn y pwyllgor gwaith, roedden nhw'n trafod ffyrdd i wella'r ffordd o weithio, ee. Yn nes ymlaen daethon nhw â rhagor o beiriannau i mewn, lle o'r blaen roedd y gweithwyr yn gwneud pethau gyda'u dwylo. Hefyd oedd 'na *scheme* lle roedd y gweithwyr yn cael eu hamseru, roedd dynion yn dod ac yn amseru faint roedd hi'n ei gymryd i'r gweithwyr wneud eu gwaith. Doedd pobl ddim yn hoffi hyn o gwbl. Erbyn iddi ymddeol, roedd pethau wedi gwella llawer yn y ffatri, meddai, gyda chyflog gwell a'r *automation* hyn. **Mae ei bysedd hi yn nawr yn chwyddedig ac afluniaidd ac mae'n meddwl mai effaith y gwaith roedd hi'n ei wneud oedd hyn.**

Roedd ICI yn gofalu am y gweithwyr yn well na R.T. Cooke, ac roedden nhw'n dda iawn o ran diogelwch '*keen iawn on safety*.' **Ond aeth y cyflog ddim i fyny llawer, ac roedden nhw wedi dod â'r *piece work* i mewn a oedd yn mynd ar nerfau pobl, achos os nad oeddech chi'n cyrraedd y nod, doeddech chi ddim yn ennill cymaint o gyflog, doeddech chi ddim yn teimlo 'gwerth y cyflog' ac roedd hynny'n beth drwg, meddai. *Time and Motion* oedd hyn, dywedodd Blodwen, ac mae'n meddwl bod rhai gweithwyr wedi dioddef achos hyn, fel y ddynes a oedd yn gweithio efo hi nes ymlaen yn y siop sgidiau a oedd yn dioddef efo'i thyroid. Yn ôl pob sôn, dywedodd meddyg yn Lerpwl wrth y ddynes hon '*They are making machines out of you instead of human beings and it is wrong. Piece work is wrong. I condemn it.*'**

Dywedodd Blodwen roedd 'na lot o *bickering* yn y ffatri o achos y *piece work* ac roedd y cyflog yn mynd i fyny ac i lawr. Doedd dim llawer o amser i sgwrsio yn y gwaith, meddai, *full speed ahead*. Roedd y siarad yn cael ei wneud yn y cantîn. Roedd pobl yn canu yno; roedd un dyn a oedd yn enwog am ganu ac roedd o yn canu o hyd, ond yn gwneud y gwaith ar yr un pryd.

Roedd Blodwen wedi mwynhau gweithio yn Cookes, yn enwedig y ffrindiau roedd hi wedi eu gwneud yno. Roedd pobl Blaenau Ffestiniog yn ffrindiau am oes, meddai. Mae'n difaru tipyn achos fod ei hiechyd wedi cael ei effeithio ondyr adeg hynny roedd yn rhaid i chi weithio, meddai, neu lwgu.

Roeddech chi'n ifanc a doedd y *NG poisoning* ddim yn effeithio ar bawb. **Pan oedd y gweithwyr gartref dros y penwythnos roedden nhw'n dioddef o bennau tost ofnadwy, fel rhyw fath o *withdrawal symptom* ac roedd rhai yn mynd â darn bach o *gelnit* adre efo nhw a '*snwffio*' fo dros y penwythnos a byddai'r pen tost yn mynd. Doedd y rheolwyr ddim yn gwybod am hyn ac roedd y stwff yma'n beryglus iawn. Wnaeth Blodwen mo hynny erioed ond roedd ffrind hi yn gwneud hynny bob penwythnos achos roedd hi'n ddioddef yn ofnadwy efo'r pen tost yma.**

Y ffrwydrad mawr yn 1957 oedd y peth mwyaf mae Blodwen yn ei gofio am ei hamser yn Cookes. Dywedodd hi fod meddyg, *lady doctor*, ac roedd hi yno efo'r meddyg arall, ac aeth honno i mewn ar ôl y ffrwydrad, a dod o hyd i allwedd tŷ ei chwaer, a oedd wedi bod yn gartre i'r teulu ond roedd ei chwaer yn byw yno ar ôl i'w mam a'i thad farw. a doedd hi ddim wedi priodi. Mae'r agoriad gan Blodwen o hyd '*all twisted up.*' Roedd gŵr Blodwen wedi mynd lawr i'r gwaith ddiwrnod ar ôl y ffrwydrad a dywedodd ei bod hi'n amhosib cerdded yno am fod gwydr dros y lle i gyd. Roedd ei gŵr wedi bod yn y rhyfel, yn Burma ac wedi gweld pethau mawr, ond wnaeth o ddim crio tan iddo fynd i mewn i dŷ ei chwaer yng nghyfraith y diwrnod hwnnw a gweld ei *slippers* a phopeth yn *spick and span* a'r bwrdd wedi'i osod ar gyfer te, a thorrodd e i lawr.

Roedd wedi bod damweiniau o'r blaen ond roedd honno yn ddamwain fawr - mae Blodwen yn cofio'r dyddiad, 28 Awst 1957, yr un dyddiad ag y bu farw ei mam, saith mlynedd ynghynt.

Ar ei diwrnod ymddeol, roedd Blodwen yn teimlo'n chwerw a doedd hi ddim eisiau parti ffarwelio. Rhoddodd Dr Stone gloc iddi'r dirwnod hwnnw. Ond roedd 'na barti pan oedden nhw'n rhoi'r watshys i bawb. Tasai hi wedi bod yno dair blynedd arall, byddai wedi cael watsh aur, ond mae'r un arian sydd ganddi yn '*good time-keeper,*' meddai, ac mae'n ei gwisgo hi yn y llun uchod.

Dywedodd Blodwen stori hefyd o adeg y rhyfel, stori ysgafn ar ôl i'r recordydd ddiffodd am un o'r merched – ei bod wedi rhoi nodyn i mewn i focs o *grenades*, gyda'i henw a'i chyfeiriad ac atebodd milwr ateb hi. Ar ôl y rhyfel daeth o i Benrhyndeudraeth a phriododd y ddau yn y diwedd.

Hyd: 50 munud.

English summary

Cookes Explosives, Penrhyndeudraeth (1940 - 1970)

Interviewee: VN026 Blodwen Owen

Date: 16: 06: 2014

Interviewer: Kate Sullivan on behalf of Women's Archive Wales

Blodwen was born on 20th August 1925. She is originally from Llanfrothen. Her mother was a house wife and her father was a quarry worker in Croesor who moved to the South for a while to work in the coal mines after the quarry closed. The family didn't go with him. There were seven children in the family and Blodwen was the youngest but one. She went to school in Llanfrothen and then on to Ysgol Sir Porthmadog and left when she was fifteen or sixteen years old because the family couldn't afford to pay her bus fare to school or for her books. The family lived on her father's wage. Blodwen helped her mother at home and then went to work in a hotel in Llanfrothen for ten shillings a week. Her brother went away to work and then went to war. Blodwen worked in

the hotel until she got work in Cookes. She got the job through a friend and didn't need to have an interview – she just asked in the office.

She travelled from Llanfrothen to Penrhyndeudraeth by bike. She was fifteen years old when she started at Cookes wasn't nervous at all as she had many friends there. **Her job was making paper bags into some sort of cartridge for the powder and gelignite, and wasn't dangerous. When the girls were eighteen they had to go to work in the sheds with the dangerous material. The work was monotonous and was based on piece work, and hard work was required to earn your wage.**

7.15 She worked eight until five with half an hour for lunch. The wage increased after going to work in the sheds but not by much. Her first wage was three pounds and went up to just under seven pounds. **The factory wasn't a comfortable place to work, especially during the war when they were making hand grenades. The girls' hands turned yellow and there was a bad smell because of the TNT. Blodwen had a stand and would put the grenade on it and then push the powder in. Somebody else would paint the outside red or green and they couldn't touch them when the paint was wet. After the paint had dried they put the grenades into the holder in order to fill them with TNT. Some of the girls would supervise them to ensure that the grenades had been filled with enough powder. If they were rejected they had to be re-filled so Blodwen would try to fill them properly.**

At the end of every shift the workers had to water down the floor to ensure there was no friction when it was brushed, as this could cause an explosion. For the same reason, the girls weren't allowed to wear clips in their hair.

She wore a uniform which protected her skin but didn't wear a mask. RT Cooke owned the factory but after the large explosion ICI took over and things changed.

Blodwen lost her sister Elizabeth in the big explosion in 1957. Blodwen had just finished work in shed P3 where they did the sheathing and her sister was on the powder in shed P1. "And then I said, 'I'm off, the hooter is going'". There was an almighty bang, and she was thrown across the bench and knocked out. She was in shock so she didn't know how many or who had been killed that day. Her sister was 45 years old and lived at home at the time, whereas Blodwen was 32 years old, married and was living in Porthmadog. Four were killed on that day – three women and one man. The inquest concluded: *'No negligence on the part of the company'*. Blodwen remembers that one of the foremen had warned the girls shortly before the explosion not to walk down a particular part of the factory. When Blodwen asked why, the foreman told her he had seen blue flashes there. People were angry that the families of the victims weren't compensated and the official line was that the mice upstairs had chewed through the wires and. Her sister was unmarried and didn't have dependents and the company only paid for the funeral.

15.00 Blodwen was off work for six months. In the end the manager persuaded her to come back. It was very difficult for her but they moved her from the scene of the accident to the other side of the site. They eventually re-built that shed. Blodwen's work was then in the packing house where they packed the cartridges. They'd stopped making grenades by then as the war had ended. ICI took over during the war and built high mounds around every shed in order to minimise the effects of any explosion. More health and safety rules were introduced. After the war they made explosives for the coal industry.

The workers in packing were women apart from the man who brought the stuff in and took the explosives away. Blodwen worked in a group of five girls and one man in the packing room from 1957.

When she worked in sheathing they put the cartridges into bags with soda around them. The women wore something to protect their hair and there was a noisy machine that closed the bag. It was very hot there too, especially on the afternoon shift so she went to work in another part of the factory. There were three shifts: six until two, two until ten, and eight until five. During the war she worked on the night shift which she didn't like but workers couldn't choose which shift they worked. She travelled to work by bike, whether it was day or night. There also girls from Llanfrothen working there.

21.00 Blodwen got married in 1947 and had two sons and afterwards she continued to work, getting up at five o'clock if she was on the day shift. She worked there for twenty five and a half years between 1940 and 1970 with gaps in her employment to have children.

The girls who worked with the explosives would have to go to the doctor for a check-up every week. She was told she had low blood pressure and that she was to be taken off the explosives for six weeks. After a month a foreman told her to go back to the sheds to work. When the doctor found out he phoned the foreman and told him she was suffering from NG poisoning and that she would have to finish that day. Blodwen said she could not finish work but was given no choice. The NG poisoning affected the heart so Blodwen retired after twenty six years but didn't receive any compensation for the illness. There was a union there and even though Blodwen was a member it wasn't strong enough to help her. After losing her job Blodwen cried all the way home on the bus. She got work in a shoe shop in Porthmadog and was there until it shut. There was another woman working in the shop who had worked in Cookes – she had to finish because she was suffering with her thyroid.

Blodwen missed the other women after she left the factory. There were nearly six hundred working there. **She didn't socialise with them outside work because she had too much work to do at home looking after her husband and children.** Her first son was born in 1948 when she was 23, and the second son the following year. She returned to the factory when her second son was about three years old. This was in the 1950s (before the big explosion in 1957.)

29.10 There was a lovely canteen and excellent cook in Cookes. Every Christmas the workers had free lunch. The canteen staff came in on the Sunday before Christmas to prepare it. **The canteen wasn't open during the night shift so people brought their own food.**

Workers clocked in and out initially although this practice was abandoned. Workers were punctual because the entrance was next door to the office.

31.30. **Blodwen was elected onto the works committee** and went on annual trips to the North of England for company liaison meetings with Cookes (ICI) other factory in Scotland.

Blodwen shows pictures of the committee, her sister and other workers killed in August 1957, and her retirement. The company employed its own doctor. One of the managers brought in a scheme whereby workers could earn a bonus for not losing work. Blodwen got £70 for full attendance. The workers would receive sickness pay when they were off ill.

The working committee discussed ways of improving working practices. Later on they brought

more machines in instead of doing things by hand. Workers disliked being timed doing their work. By the time she retired things had improved considerably in terms of the wages and increased automation. **Her fingers are now swollen and she thinks this is due to the work she did.**

ICI were better employers than RT Cooke in terms of health and safety but they introduced piece work. **A doctor in Liverpool described what was happening at the factory, 'They are making machines out of you instead of human beings and it is wrong. Piece work is wrong. I condemn it.'**

The piece work was the root of a lot of bickering in the factory and it meant that wages went up and down. There wasn't much opportunity to talk as they worked so they would chat and sing in the canteen.

Blodwen enjoyed working in Cookes and made good friends there. She regrets that her health was affected but it was a case of going there to work or starving. The NG poisoning didn't affect everybody. **Many workers would suffer from headaches during weekends which were due to withdrawal symptom from the gelignite – so they would take a small piece of it home and sniff it. As a result the headache would disappear. The managers didn't know about this and it was very dangerous. Blodwen never did it, but her friend did as she suffered terribly from headaches.**

At the time of the explosion in 1957 there was a lady doctor working at Cookes. She found her sister's house key at the site of the explosion. (The house had been Blodwen's family home although her mother and father had now died.) Blodwen still has the key which is all twisted.

Blodwen's husband went down to the factory the day after the explosion – there was glass everywhere. When he went into Elizabeth's house and saw her slippers, and the table set for tea, he broke down crying. The date of the explosion was 28 August 1957 – Blodwen's mother died on the same day seven year earlier.

Blodwen felt bitter on the day she retired and didn't want a farewell party. Dr Stone gave her a clock that day. There was a party when they were giving everybody a watch. She received a silver watch – a good time-keeper – but would have had a gold one if she'd been there another three years. She still wears it.

Blodwen told a story after the recording about one the girls who wrote a note with her name and address on it and put it in a box of grenades during the war. A soldier got in touch with her. After the war he came to Penrhyndeudraeth and they got married.

Duration: 50 minutes.